



*Caplan i Esgob Bangor a  
Chaplan yr Archesgob*



Esgobaeth  
Bangor  
The Diocese  
of Bangor

# *Croeso / Welcome*



Fel Esgobion yn esgobaeth Bangor gobeithiwn y bydd y wybodaeth yn y proffil hwn yn ddefnyddiol ac yn ddeniadol. Am ddegawd a mwy rydym wedi canolbwyntio ein holl egni gweinidogol trwy ein Hardaloedd Gweinidogaeth yn argyhoeddedig y gallwn wneud mwy gyda'n gilydd ac yn well, nag y gallwn ar wahân.

Ein gobeithion i bawb sy'n gwasanaethu gyda ni yw bod y cam hwn o ffydd yn arwain at gymunedau eglwysig a disgyblion ffyniannus sy'n ymhyfrydu eu bod yn perthyn i deulu Bangor.

Pe byddech yn dewis ymuno â ni ar y daith hon, gallwn eich sicrhau o'n cefnogaeth gref a'n gweddïau dros eich dyfodol, boed gyda ni neu mewn gweinidogaeth mewn man arall.

Boed i ras a heddwch Duw fod gyda chi yn eich dirnadaeth,

+Andrew Cambrensis +David Enlli

# *Proffil y Rôl*

Etholir Archesgob Cymru o blith y chwe esgob esgobaethol sy'n gwasanaethu. Cynhaliwyd yr etholiad diweddaraf ym mis Rhagfyr 2021 ac etholwyd Esgob Bangor yn Archesgob; mae'n parhau i wasanaethu fel Esgob Bangor ac mae'n cael ei gynorthwyo yn y swydd hon gan Esgob Cynorthwyol, Esgob Enlli.

Hanfod y rôl hon yw sicrhau bod Archesgob Cymru yn rhydd i arfer ei weinidogaeth gan wybod bod systemau a phrotocolau cadarn ar waith i sicrhau y bydd yn cael ei friffio'n dda bob amser wrth ymgymryd â'i amserlen heriol.

Mae natur y rôl hon yn galw am hyblygrwydd o ran oriau gwaith a lleoliad. Bydd angen teithio ledled Cymru – a'r tu hwnt – gan gynnwys arosiadau dros nos.



Rydym yn chwilio am rywun a fydd:

- yn gweddïo gyda'r Archesgob a thros yr Archesgob, gan sefydlu a chynnal patrwm o weddi, addoliad a myfyrdod ysbrydol i'r Archesgob a'i swyddfa.
- yn arwain y broses o gynorthwyo gwaith yr Archesgob gyda'r Eglwys yng Nghymru, y Cymundeb Anglicanaidd, Grŵp yr Archesgobion, cysylltiadau Eciwmenaidd a Rhyng-ffydd, a meysydd eraill o waith portffolio'r Archesgob yn ôl yr angen.
- yn gweithio'n agos gyda Chynorthwydd Gweithredol yr Archesgob a'r Swyddog Cyfathrebu Digidol, sicrhau bod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod amser yr Archesgob yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth ac nad yw materion brys yn disodli materion pwysig. Bydd hyn yn cynnwys llunio dulliau o wneud penderfyniadau am y gwahoddiadau a'r ceisiadau i fynychu cyfarfodydd y dylai'r Archesgob eu derbyn, a'r rhai y dylid eu trosglwyddo i eraill; gwaith ymchwil a briffio trylwyr cyn ymrwymadau allweddol a sicrhau cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith wrth gynllunio'r amserlen.
- yn sicrhau prosesau cydgysylltu a chyfathrebu da â theulu'r Archesgob..
- yn cynnal cysylltiadau â swyddfeydd cyswllt allweddol yn Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, elusennau, a sefydliadau eraill y mae gan yr Archesgob gyswllt â nhw.
- yn gyfarfodydd staff y mae'r Archesgob yn cymryd rhan ynddynt (gyda chydweithwyr yr Eglwys yng Nghymru a chydweithwyr eraill) y mae'r Archesgob yn dymuno cael nodyn atgoffa neu gofnodion ar eu cyfer.
- yn cyflawni dyletswyddau Cydlynnydd Addoliad y Corff Llywodraethol.
- yn cyflawni dyletswyddau Caplan i'r Coleg Etholiadol.
- yn ymateb i ohebiaeth gyffredinol sy'n cael ei derbyn ar ran yr Archesgob, gan ysgrifennu ymatebion, yn ôl y gofyn, os oes angen ateb ganddo.

- yn mynychu digwyddiadau allweddol gyda'r Archesgob yn ôl yr angen, gan weithredu fel caplan litwrgaidd yn ôl yr angen.
- yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yr Archesgob, gan gynnwys yr Uwch Dîm yn yr esgobaeth a'r dalaith, er mwyn sicrhau bod cymesuredd ac aliniad agos o ran gweinidogaeth yr esgobaeth y mae'r Archesgob yn Esgob yr Esgobaeth arni hefyd.
- yn cadw i fyny â materion cyfoes, newyddion yr eglwys a newyddion am y Cymundeb Anglicanaidd, a briffio'r Archesgob am y materion hyn.
- yn neilltuo amser i ddarllen llyfrau, erthyglau a phapurau ar ran yr Archesgob, gan lunio crynodebau a briffiau fel sy'n briodol.
- yn gwneud gwaith ymchwil a'i ddefnyddio i ddrafftio pregethau, anerchiadau a phapurau yn ôl yr angen.
- yn sicrhau bod protocolau cadw cofnodion da ar waith, gan gydweithio, fel sy'n briodol, â Dirprwy Gofrestrydd yr Archesgob.
- yn cynnal eich datblygiad proffesiynol eich hun a chadw i fyny â'r newidiadau rheoleiddiol diweddaraf a'r datblygiadau diweddaraf o ran arferion gorau.
- yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau eraill yn ôl y gofyn sy'n gymesur â'r rôl.



# *Gwybodaeth, Sgiliau, Cymwysterau a Phrofiad*

## Hanfodol

- Clerig ordeiniedig o fewn y Cymundeb Anglicanaidd.
- Sgiliau trefnu cadarn ac amlwg.
- Y gallu i weithio dan bwysau a bod yn rhagweithiol pan fydd llai o bwysau o ran amser.
- Sgiliau cyfathrebu a rhyngpersonol wedi'u datblygu yn dda.
- Ymrwymiad i ragoriaeth yn y gweithle.
- Gradd, cymhwyster academaidd cyfwerth neu gefndir mewn diwinyddiaeth a gweinidogaeth.

## Desirable

- Dealltwriaeth o'r Eglwys yng Nghymru, rôl esgobion a strwythurau Corff y Cynrychiolwyr.
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn rhugl yn y Gymraeg.

## Cyfleoedd Datblygu

- Mae'r swydd hon yn cynnig cyfle i ddatblygu ystod eang o sgiliau mewn cyfnod cyffrous pan fo'r Eglwys yng Nghymru yn gwneud newidiadau er mwyn ymgysylltu'n well ac yn fwy effeithlon â'i chenhadaeth a'i gweinidogaeth i'r Gymru gyfoes.
- Bydd cyfleoedd i gymryd rhan mewn cyfarfodydd a digwyddiadau proffil uchel, a gweithio gydag amrywiaeth o gydweithwyr a rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae hon yn swydd uwch, a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael y cyfle i ddylanwadu arni ac, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol, ei datblygu ymhellach.

## Manylion

- Mae'r rôl hon yn dod o dan Delerau Gwasanaeth Clerigwyr yr Eglwys yng Nghymru. Gellir dod o hyd i'r manylion yn y [Llawlyfr Clerigwyr](#).
- Lefel y cyflog periglor ar gyfer y swydd hon yw lefel "Canon Trigiannol" (115% o gyflog periglor yn fras.) sydd yn £32,800 ar hyn o bryd.

# Y tŷ




## 55 Y Bae, Bangor, LL57 2SZ

Mae '55 Y Bae' yn gartref tri llawr, tair llofft ar ochr y cei ym Mangor. Mae'r llawr gwaelod yn cynnwys cyntedd gyda chyfleuster WC ac ystafell yng nghefn yr eiddo sy'n arwain at yr ardd gefn llawr caled sydd wedi ei thirlunio. Byddai'r ystafell hon yn addas iawn fel swyddfa gan na fyddai yn effeithio ar yr ystafelloedd byw uwchben. O'r cyntedd mynediad, mae drws hefyd yn arwain i'r garej integredig.

Ar y llawr cyntaf mae tair llofft; mae gan y brif ystafell wely ystafell ymolchi ensuite, ac mae hefyd ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf sy'n cael ei rhannu gan y ddwy ystafell wely arall. Ar yr ail lawr mae cegin fawr gyda man bwyta a lolfa fawr gyda golygfeydd dros Borth Penrhyn, Traethau Lavarn, Mynyddoedd y Carneddau a'r Gogarth ymhellach draw.



Mae gan yr eiddo hwn sgôr effeithlonrwydd ynni EPC o B85, sy'n sgôr uchel iawn o ran effeithlonrwydd ynni ac yn arwain at ddefnydd ynni isel.





# Esgobaeth Bangor

Rydym yn gymuned Gristnogol fywiog gyda hanes cyfoethog sy'n dyddio'n ôl i'r bumed ganrif, wedi'i gwreiddio yn nhraddodiadau seintiau Celtaidd cynnar er enghraifft Deiniol, Cybi, Seiriol, Tudwen, Madryn, ac eraill. Mae'r seintiau hyn wedi'u hanfarwoli yn enwau ein heglwysi, ein pentrefi a'n trefi.

Er bod ein cenhadaeth yn parhau i fod yn gadarn dros fileniwm a hanner, mae ein cyd-destun cyfoes yn cyflwyno cyfleoedd newydd a heriol. Mewn ymateb, rydym wedi cofleidio gweledigaeth o ddilyn Iesu gyda brwdfrydedd o'r newydd a dulliau arloesol. Mae ein hymrwymiad yn troi o amgylch tair egwyddor weledigaethol y credwn y dylent ddiffinio ein bywyd cymunedol:

- Addoli Duw.
- Tyfu'r Eglwys.
- Caru'r byd.

Rydym yn eich croesawu i ymuno â ni yn y genhadaeth drawsnewidiol hon, wrth i ni wneud ein ffordd trwy heriau ein hamser gyda ffydd, ymroddiad, ac ymrwymiad i addoli, twf a chariad.



Esgobaeth Bangor | BBC Pilgrimage 2024



## *Esgob Bangor ac Archesgob Cymru*

Fe fagwyd yr Archesgob Andrew yn Aberystwyth. Mynychodd Ysgol Penglais a graddiodd mewn Cyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, yn 1986, ac mewn Diwinyddiaeth ym Mhrifysgol Nottingham yn 1988. Enillodd hefyd Ddiploma mewn Astudiaethau Bugeiliol yn 1989 yng Ngholeg St John, Nottingham. Fe'i hordeiniwyd yn ddiakon yn 1989 ac yn offeiriad yn Esgobaeth Tyddewi yn 1990, gan wasanaethu drwy gydol ei weinidogaeth ordeiniedig yn yr esgobaeth honno tan ei ethol yn Esgob Bangor.

Bu'n gurad yn Aberteifi, Y Ferwig a Mwnt o 1989 i 1991 ac yna yn Aberystwyth o 1991 i 1992. Gwasanaethodd fel ficer yn Fywoliaeth Reithorol Aberystwyth o 1992 i 1999. Cafodd yr Archesgob Andrew ei benodi i blwyf Henfynyw gydag Aberaeron a Llanddewi Aberarth yn 1999 – plwyf a estynnodd yn 2005 i gynnwys Llanbadarn Trefeglwys.

Fe'i penodwyd yn ficer Pencarreg gyda Chwmann a Llanycrwys ac yn Archddiacon Ceredigion yn 2006.

Fe'i hetholwyd yn Esgob Bangor yn 2008.

Fel offeiriad plwyf, cadeiriodd yr Archesgob Andrew Bwyllgor Ieuencid yr Esgobaeth a gwasanaethodd ar nifer o gyrff eglwysig yr esgobaeth gan gynnwys Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru. Bu hefyd yn Genhadwr Archesgob Caergaint i Grŵp "Springboard Decade of Evangelism". Bu'n is-gadeirydd ac yna'n Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Plascrug, ac yn Gadeirydd Cyswllt Ceredigion (asiantaeth adsefydlu cyffuriau yn y stryd yn gweithio ar sail model triniaeth Minnesota) am ddegawd. Fel Esgob Bangor, mae wedi parhau i gynghori asiantaethau lleol ar faterion sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol.

Fel Archddiacon Ceredigion, ysgrifennodd y cwrs efengylu 'Menter' a chynhyrnodd y DVD cydnabyddedig o'r un enw.

Fel Esgob Bangor, mae Andrew wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu Ardaloedd Gweinidogaeth fel y prif strwythur a man gweinidogaeth. Mae ailsefydlu trydedd Archddiaconiaeth wedi galluogi'r archddiaconiaid i rannu'n fwy llawn yng ngweinidogaeth yr Esgob wrth iddynt ofalu am y 9 Ardal Gweinidogaeth a'r arweinwyr o fewn eu hardaloedd.



Ar hyn o bryd, mae'n dal portffolios sy'n cynnwys newid hinsawdd, diogelu, gwaith rhyngffydd, a chyfiawnder cymdeithasol-economaidd. Mae hefyd wedi bod yn gyfrifol am Dwf yr Eglwys ac efengylu, ac ar hyn o bryd mae'n cadeirio Pwyllgor Cronfa Twf yr Eglwys yng Nghymru. Gwasanaethodd ar Gyngor Padarn Sant hyd at Fehefin 2017.

Yn ei amser hamdden, mae'n parhau i fwynhau awyr agored gogledd Cymru, gan gerdded a rhedeg mynyddoedd Eryri.

Mae'n briod â Naomi, sydd hefyd yn glerig yn esgobaeth Bangor.

# Yr Eglwys yng Nghymru

Sefydlwyd yr Eglwys yng Nghymru yn 1920 pan ddaeth yn annibynnol o'r Eglwys Loegr. Fel yr enwad mwyaf yng Nghymru, mae'n gwasanaethu cymunedau drwy chwe esgobaeth ledled y wlad.

Mae'r Eglwys yn gweithredu drwy chwe esgobaeth: Esgobaeth Bangor, Esgobaeth Llanelwy, Esgobaeth Tyddewi, Esgobaeth Abertawe ac Aberhonddu, Esgobaeth Mynwy, ac Esgobaeth Llandaf.

Mae pob esgobaeth yn cael ei harwain gan esgob esgobaethol sy'n gyfrifol am ffydd, gweinidogaeth ac addoli yn eu hardal. Caiff un esgob ei ethol yn Archesgob Cymru, gan wasanaethu fel "cyntaf ymhlith cyfartalion" heb reolaeth uniongyrchol dros yr esgobion eraill.

## Llywodraethiad

Cynhelir y rhan fwyaf o'r penderfyniadau drwy dri phrif gorff.

Mae'r strwythur cytbwys hwn yn galluogi'r Eglwys yng Nghymru i wasanaethu ei chymunedau yn effeithiol, gan gadw ei hunaniaeth Gymreig benodol o fewn traddodiad ehangach y Cymuned Anglicanaidd.

- Corff Llywodraethol: Yn cynnwys aelodau llewyg etholedig, clerigion ac esgobion, sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae pwyllgor parhaol yn gofalu am drefnu a gweithredu rhwng y cyfarfodydd.
- Corff Cynrychiolwyr: Sefydlwyd y Corff Cynrychiolwyr drwy Siarter Frenhinol yn 1919 ac mae'n gyfrifol am ofalu am asedau'r Eglwys yng Nghymru i sicrhau bod adnoddau ar gael er budd yr Eglwys gyfan. Lleolir canolfan weinyddol y Corff Cynrychiolwyr yn Callaghan Square, Caerdydd.
- Y Fainc Esgobion: Mae'r chwe esgob esgobaethol ac un esgob cynorthwyol yn cyfarfod fel Mainc Esgobion yn fisol. Er eu bod yn cymryd rhan yng Nghorff Llywodraethol, maent hefyd yn gyfrifol yn benodol am faterion ffydd, cenhadaeth a gweinidogaeth wrth gyfarfod fel grŵp.

# *Y Broses Penodi*

Anfonwch eich CV ynghyd â llythyr cais dros e-bost at yr Archesgob Andrew John:

[archbishop@churchinwales.org.uk](mailto:archbishop@churchinwales.org.uk)

Dylai eich CV gynnwys eich cymwysterau addysgol a hyfforddiant, a hanes o eich swyddi.

Dylai eich llythyr cais, nad yw'n fwy na dwy dudalen A4, egluro'r hyn sy'n eich denu at y rôl ac amlinellu sut mae eich sgiliau a'ch profiad yn cyd-fynd â'r fanyleb bersonol.

Bydd ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd i gyfweiliad.

Rhagor o wybodaeth a sgwrs anffurfiol

Y Parchedig James Tout – Caplan presennol yr Archesgob

07967 752702

[jamestout@churchinwales.org.uk](mailto:jamestout@churchinwales.org.uk)



**Esgobaeth  
Bangor**  
The Diocese  
of Bangor